# Y dreth gyngor

Dalen Ffeithiau 414WEL
Mai 2017

Alzheimer's Society Cymru
Unedig Yn Erbyn Dementia
United Against Dementia

Codir taliad y dreth gyngor gan awdurdodau lleol ar eiddo preswyl yng Nghymru a Lloegr i helpu i dalu am wasanaethau lleol. Mae rhai pobl â dementia yn gymwys am ddisgownt ar eu bil treth gyngor. Weithiau mae'r bobl sy'n gofalu amdanynt yn gymwys am ostyngiad hefyd. Mae'r ddalen ffeithiau hon yn edrych ar bwy sydd angen talu'r dreth gyngor, a'r gostyngiadau, y disgowntiau a'r eithriadau a allai fod ar gael.

Mae'r ddalen ffeithiau hon yn berthnasol yng Nghymru a Lloegr. Mae gan Ogledd Iwerddon system ardrethi ac mae pob eiddo yn cael ei brisio yn unigol. Am wybodaeth ar ddisgowntiau ac eithriadau os ydych yng Ngogledd Iwerddon, cysylltwch ag adran ad-daliadau'r Gwasanaeth Tir ac Eiddo yn eich ardal leol (gweler 'Sefydliadau defnyddiol eraill').

## Cynnwys

- Pwy sy'n talu?
- Disgowntiau, anwybyddiadau ac eithriadau
- Byw gyda gofalwr
- Eiddo gwag
- Gostyngiadau treth gyngor i bobl ag anableddau
- Ôl-ddyddio ar gyfer disgowntiau, anwybyddiadau ac eithriadau
- Apeliadau
- Cymorth â'r dreth gyngor
- Sefydliadau defnyddiol eraill

**Mae'r ddalen ffeithiau hon ar gael yn Saesneg, mewn print neu ar-lein. Ewch i alzheimers.org.uk/publications**

**This factsheet is available in English, in print or online. Visit alzheimers.org.uk/publications**

# Y dreth gyngor

Mae'r dreth gyngor yn berthnasol i gartrefi sy'n eiddo i berchen-feddianwyr ac eiddo a rentir. Cyfrifir y bil ar gyfer pob eiddo ar y sail bod dau neu fwy o oedolion yn byw yno. Fodd bynnag, bydd angen i chi dalu treth gyngor os mai un person yn unig sy'n byw yno.

Mae'r swm mae angen ei dalu yn y dreth gyngor ar bob eiddo yn dibynnu ar nifer o bethau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- pa un o'r wyth 'bandiau' prisio mae'r eiddo ynddo, yn seiliedig ar ei werth
- yr ardreth a bennir gan yr awdurdod lleol
- a yw'r bobl sy'n byw yno yn gymwys am unrhyw gymorth, gostyngiadau neu eithriadau.

**Mae'r system dreth gyngor yn gymhleth ac yn newid yn gyflym. Dylai unrhyw un sydd â chwestiynau pellach gysylltu ag adran dreth gyngor yr awdurdod lleol.**

## Pwy sy'n talu?

Gall un person neu fwy fod yn gyfreithiol gyfrifol am dalu'r dreth gyngor ar gyfer eiddo. Fodd bynnag, dim ond un bil a anfonir at yr eiddo, heb ystyried nifer y bobl sy'n byw yno. Mae cyd-berchnogion a chyd-denantiaid fel ei gilydd yn gyfrifol am y dreth gyngor, fel sy'n wir am wŷr a gwragedd, partneriaid sifil a phobl sy'n byw gyda'i gilydd fel partneriaid.

## Disgowntiau, anwybyddiadau ac eithriadau

Bydd rhai pobl yn gymwys i gael disgowntiau, anwybyddiadau ac eithriadau ar eu treth gyngor. Mae gan bob un o'r termau hyn wahanol ystyron, felly mae'n bwysig gwybod y gwahaniaeth.

### Disgowntiau

Bydd rhai pobl yn cael disgownt ac felly byddant yn talu cyfradd ostyngedig o dreth gyngor. Er enghraifft, mae gan unrhyw un sy'n byw ar eu pen eu hunain, neu sy'n cael eu trin fel rhai sy'n byw ar eu pen eu hunain (gweler isod), hawl i ostyngiad o 25% ar eu bil. Gelwir hyn yn 'ddisgownt person sengl'. Mae mathau eraill o ddisgownt hefyd.

## Anwybyddiadau

Mae anwybyddiadau yn berthnasol i bobl sy'n byw yn yr eiddo. Mae rhai pobl yn cael eu hanwybyddu ac yn dod yn anweledig at ddibenion y dreth gyngor. Felly, er enghraifft, os anwybyddir un o ddau feddiannwr, bydd fel bod y person arall yn byw ar ei ben ei hun, a byddant yn cael disgownt person sengl o 25% ar eu treth gyngor.

Mae gwahanol fathau o anwybyddiadau yn seiliedig ar y rhesymau amdanynt. Mae'r gwahanol fathau o anwybyddiadau yn bwysig oherwydd eu bod yn effeithio ar eithriadau (gweler isod).

Gellir anwybyddu person â dementia os oes ganddynt amhariad meddyliol difrifol. Mae hyn yn berthnasol i unrhyw un sy'n diwallu'r holl feini prawf dilynol:

- mae ganddo amhariad difrifol ar ddeallusrwydd a gweithredu cymdeithasol sy'n ymddangos yn barhaol
- mae ganddo dystysgrif sy'n cadarnhau'r amhariad hwn gan ymarferydd meddygol cofrestredig, fel arfer meddyg teulu neu feddyg ymgynghorol y person
- mae ganddo hawl i fudd-daliadau anabledd penodol - y budd-daliadau cymwys mwyaf cyffredin yw Lwfans Gweini (cyfradd is neu uwch), Lwfans byw i'r anabl (cydrannau gofal cyfradd uwch neu ganol) a Thaliad annibyniaeth bersonol (cyfradd is neu uwch o'r gydran byw bob dydd).

Mae llawer o bobl â dementia yn diwallu pob un o'r tri maen prawf, felly fe'u hanwybyddir o dan y rheolau amhariad meddyliol difrifol.

- **Enghraifft:** Mae Tony a Gwen yn briod. Mae Tony yn bodloni'r meini prawf 'amhariad meddyliol difrifol' fel y nodir uchod, ac felly caiff ei anwybyddu ar gyfer y dreth gyngor. Mae hynny'n golygu bod Gwen yn cael ei thrin fel rhywun sy'n byw ar ei phen ei hun, er nad yw hi. Byddant yn cael y 'disgownt person sengl' o 25%.

## Eithriadau

Mae eithriadau'n berthnasol i eiddo, yn hytrach na phobl. Mae eithriad yn golygu bod yr eiddo cyfan wedi'i eithrio o'r dreth gyngor ac nad oes dim i'w dalu. Er enghraifft, pan yw'r unig bobl sy'n meddiannu'r eiddo yn cael eu hanwybyddu oherwydd eu bod ag amhariad meddyliol difrifol, mae 'eithriad dosbarth U' yn gymwys sy'n golygu nad yw taliad yn ddyledus.

- **Enghraifft:** Roedd Nancy wedi bod yn hawlio disgownt person sengl ar ei bil treth gyngor oherwydd ei bod yn byw ar ei phen ei hun. Ar ôl iddi gael ei diagnosis o ddementia fasgwlaidd, fe wnaeth hawliad llwyddiannus am lwfans Gweini. Yna, llofnododd ei meddyg teulu ei ffurflen o dan y rheolau ynghylch amhariad meddyliol difrifol. Mae hyn yn golygu ei bod yn cael ei hanwybyddu ac mae ei thŷ bellach wedi'i eithrio. Nid yw'n talu unrhyw dreth gyngor.

Mae'n bwysig gwybod nad yw pob anwybyddiad yn golygu y bydd yr eiddo wedi'i eithrio o'r dreth gyngor. Mae rhai anwybyddiadau yn golygu nad yw'r person yn cyfrif at ddibenion y dreth gyngor, ond caiff yr eiddo ei drin fel petai'n wag a chodir tâl ar gyfradd eiddo gwag (gweler 'Eiddo gwag' isod). Un enghraifft o'r math hwn o anwybyddiad fyddai pe byddai gofalwr sy'n bodloni meini prawf penodol yn byw yn yr eiddo.

## Byw gyda gofalwr

Ni fydd priod neu bartner yn cael disgownt nac anwybyddiad o ganlyniad i fod yn ofalwr. Os yw rhywun yn byw gydag ac yn gofalu am bartner sy'n bodloni'r meini prawf ynghylch amhariad meddyliol difrifol (ac nad oes neb arall yn byw yn yr eiddo), codir y dreth gyngor fel person sengl ar y priod neu'r partner fel pe byddent yn byw ar eu pen eu hun, fel yn yr enghraifft o Tony a Gwen a ddangosir uchod.

Fodd bynnag, gellir anwybyddu rhai gofalwyr eraill at ddibenion y dreth gyngor os ydynt yn perthyn i un o ddau grŵp. Rhaid i'r grŵp cyntaf o ofalwyr a anwybyddir at ddibenion y dreth gyngor fodloni'r holl feini prawf dilynol:

- gofalu am o leiaf 35 awr yr wythnos
- byw yn yr un eiddo â'r person maent yn gofalu amdano
- nid yw'n bartner i'r person maent yn gofalu amdano
- nid yw'n rhiant y person maent yn gofalu amdano, os yw'r person sy'n derbyn gofal o dan 18 oed.

Yn ogystal, rhaid i'r person sy'n derbyn gofal fod â hawl i gael un o'r budd-daliadau dilynol: Lwfans byw i'r anabl (cyfradd uchaf y gydran ofal), Taliad annibyniaeth bersonol (y naill gyfradd neu'r llall o'r gydran byw bob dydd), Lwfans gweini (cyfradd uwch) neu Lwfans gweini cyson. Gallai'r person sy'n derbyn gofal gyflawni'r holl feini prawf ynghylch amhariad meddyliol difrifol, ond nid yw hyn yn hanfodol i'r gofalwr hawlio.

Rhaid i'r ail grŵp o ofalwyr a anwybyddir at ddibenion y dreth gyngor fodloni'r holl feini prawf dilynol:

- darparu gofal neu gymorth ar ran awdurdod lleol, adran y llywodraeth neu elusen, neu ddarparu gofal trwy gyflwyniad gan elusen, lle mae'r person sy'n derbyn gofal yn gyflogwr y gofalwr
- cael eu cyflogi i ofalu am y person am o leiaf 24 awr yr wythnos
- cael eu talu dim mwy na £44 yr wythnos
- byw lle mae'r gofal yn cael ei roi.

Anwybyddir rhywun sy'n syrthio i'r naill neu'r llall o'r grwpiau gofalwyr hyn at ddibenion y dreth gyngor. Fodd bynnag, mae'r math o anwybyddiad a gânt yn wahanol i rywun sydd ag amhariad meddyliol difrifol. Nid yw'r math hwn o anwybyddiad yn golygu y bydd yr eiddo wedi'i eithrio at ddibenion y dreth gyngor. Bydd y person yn talu bil treth gyngor gostyngedig ond bydd yn talu rhywbeth.

- **Enghraifft:** Mae gan Peter glefyd Alzheimer ac fe'i anwybyddir at ddibenion y dreth gyngor o dan y rheolau ynghylch amhariad meddyliol difrifol. Mae'n byw mewn tŷ gyda Jo, ei ferch. Anwybyddir Jo hefyd at ddibenion y dreth gyngor oherwydd ei bod yn cael ei chydnabod gan yr awdurdod lleol fel ei ofalwr (gweler y grŵp cyntaf o feini prawf uchod). Felly, oherwydd yr anwybyddir Peter a Jo, mae'r eiddo hwn yn cael ei drin fel petai'n wag o dan reolau'r dreth gyngor. Mae hyn yn golygu eu bod yn gymwys i gael bil treth gyngor gostyngedig - gweler 'Eiddo gwag' isod.

Gall mwy nag un person yn yr un annedd gyfrif fel gofalwr, gan gynnwys lle mae cyfrifoldebau gofal yn cael eu rhannu.

## Eiddo gwag

Mae rhai eiddo gwag wedi'u heithrio rhag y dreth gyngor - er enghraifft, os yw'r eiddo wedi'i adael yn wag gan rywun sydd wedi symud i'r ysbyty neu gartref gofal, neu wedi mynd i dderbyn neu ddarparu gofal oherwydd anabledd neu salwch. Fodd bynnag, nid yw'r mwyafrif o eiddo sydd heb eu meddiannu am ddwy flynedd neu fwy yn gymwys i gael disgownt. Efallai y byddant hyd yn oed yn wynebu cynnydd o 50% yn y dreth gyngor, yn dibynnu ar y cyngor lleol.

Os caiff yr holl bobl sy'n byw mewn eiddo eu hanwybyddu, ond nid oes unrhyw eithriad yn gymwys, caiff yr eiddo ei drin fel petai'n wag. O dan yr amgylchiadau hyn, byddai'r eiddo fel arfer yn denu taliad o 50% o'r dreth gyngor lawn. Bydd y cyngor lleol yn rhoi manylion y taliadau am yr eiddo.

O dan gynlluniau cymorth lleol newydd (gweler 'Cymorth â'r dreth gyngor' isod), mae llawer o awdurdodau lleol wedi newid y rheolau ar gyfer sut mae'r eithriadau hyn yn perthyn, yn dibynnu ar pam nad yw'r eiddo wedi'i feddiannu. Dylai'r adran dreth gyngor yn y cyngor lleol fod yn gallu rhoi cyngor ar unrhyw ddisgowntiau.

## Gostyngiadau treth cyngor i bobl ag anableddau

Weithiau mae'n bosibl hawlio gostyngiad ar y bil treth gyngor os asesir bod rhywun sy'n byw yn yr eiddo yn sylweddol neu'n barhaol anabl, a bod arno angen cyfleusterau arbennig i ddiwallu eu hanghenion. Gallai hyn gynnwys ystafell a ddefnyddir yn bennaf gan y person sy'n anabl, ystafell ymolchi neu gegin ychwanegol, neu ofod y tu mewn i'r cartref fel y gall person symud o gwmpas mewn cadair olwyn.

Os yw hyn yn wir, bydd y bil yn cael ei ostwng i gyfradd y band islaw'r un mae'r eiddo ynddo. Er enghraifft, byddai rhywun sy'n byw mewn eiddo band C yn gorfod talu'r gyfradd ar gyfer eiddo band B rhatach. Bydd biliau'r rhai hynny sydd ag eiddo band A (y band isaf) yn cael eu gostwng o un chweched rhan. Bydd gan adran dreth gyngor yr awdurdod lleol ragor o wybodaeth am hyn.

## Ôl-ddyddio ar gyfer disgowntiau, anwybyddiadau ac eithriadau

Hyd yn oed os na wnaed cais am ddisgownt, anwybyddiad neu eithriad ar unwaith, gellir ei ôl-ddyddio i'r dyddiadpan ddylai fod wedi ei weithredu'n gyntaf. Nid oes angen rhoi rheswm pam na wnaed cais yn wreiddiol, ond bydd angen i chi brofi bod y meini prawf ar gyfer eithriad neu ddisgownt yn gymwys ar yr adeg honno.

Bydd rhai cynghorau yn ôl-ddyddio'r disgownt, anwybyddiad neu eithriad i'r dyddiad y dechreuodd y dreth gyngor (Ebrill 1993) neu pan oedd yr hawl gan y person yn y lle cyntaf, pu'n bynnag sy'n ddiweddarach. Fodd bynnag, ers achos prawf yn 2013, mae rhai cynghorau'n ceisio defnyddio'r Ddeddf Cyfyngiadau (1980), sy'n cyfyngu ôl-ddyddio i uchafswm o 6 blynedd o'r dyddiad y gofynnwyd amdano.

Mae rhai cynghorau hefyd yn ceisio cyfyngu ar y disgownt, anwybyddiad neu eithriad i'r dyddiad y gofynnir amdano neu i ddechrau'r flwyddyn ariannol y gofynnir amdano. Ni chaniateir y naill na'r llall o'r rhain.

Os yw'r cyngor yn ceisio cyfyngu'r ôl-ddyddio fel hyn, ceisiwch ddatrys y broblem gyda nhw yn gyntaf. Os nad yw hyn yn gweithio, cysylltwch â'r Tribiwnlys Prisio i apelio (gweler 'Sefydliadau defnyddiol eraill'). Rhaid i chi wneud hyn o fewn dau fis o benderfyniad y cyngor.

## Apeliadau

Os gwrthodir cais am ddisgownt, anwybyddiad neu eithriad, ac os yw'r person yn anfodlon ar y penderfyniad, gallant wneud apêl i'w hawdurdod lleol. Os gwrthodir hyn, mae ganddynt hawl bellach i apelio i'r Tribiwnlys Prisio yng Nghymru neu Loegr. Rhaid gwneud hyn o fewn dau fis o dderbyn y penderfyniad.

## Cymorth â'r dreth gyngor

Fel rhan o ddiwygiadau lles y llywodraeth, diddymwyd y cynllun cenedlaethol ar gyfer budd-dâl y dreth Gyngor (budd-dâl i helpu â'r dreth gyngor ar gyfer pobl ar incwm isel) yng Nghymru a Lloegr ym mis Ebrill 2013. Fe'i disodlwyd gan gynllun lleol o'r enw cynllun cymorth y dreth Gyngor. Mae'n rhaid i bob awdurdod lleol redeg cynllun sy'n darparu cymorth i bobl sydd ar incwm isel i dalu eu treth gyngor. Bydd y cynllun hwn yn amrywio o'r naill awdurdod lleol i'r llall.

Bydd y cymorth ariannol sydd ar gael i helpu wrth dalu'r dreth gyngor yn dibynnu ar ystod o ffactorau. Gallai'r rhain gynnwys:

- pa fudd-daliadau mae'r person yn eu derbyn
- oedran y bobl sy'n byw yn yr eiddo
- eu hincwm a chynilion
- pwy sy'n byw gyda nhw.

Gall pobl o oedran pensiwn gael cymorth o hyd at 100% o'u treth gyngor fel hyn, os yw eu hincwm yn ddigon isel. Gall pobl o oedran gweithio gael ad-daliad o rhwng 70-100%, yn dibynnu ar yr awdurdod lleol. Mae llawer o bobl hŷn, yn arbennig perchnogion-feddianwyr, yn methu â hawlio'r cymorth hwn a maent ar eu colled ar yr hyn a all fod yn gymorth sylweddol.

Efallai y bydd mwy o gymorth ar gael os yw rhywun yn derbyn budd-dal anabledd neu fudd-dal gofalwr. Dylai'r cyngor lleol gynnig gwybodaeth a chyngor am y cynllun cymorth treth gyngor lleol ac argaeledd taliadau tai Dewisol i helpu pobl sy'n hawlio budd-dal tai. Am ragor o wybodaeth gweler www.counciltaxsupport.org/schemes

Beth bynnag yw'r cynllun lleol sydd ar waith ar gyfer cymorth treth gyngor â phrawf modd, bydd y disgowntiau, anwybyddiadau ac eithriadau a grybwyllir yn y ddalen ffeithiau hon ar gael ac nid ydynt yn amodol ar brawf modd.

### Cymorth y dreth Gyngor a chredyd Cynhwysol

Mae credyd cynhwysol yn fudd-dâl newydd sy'n disodli llawer o fudd-daliadau i unrhyw un sydd o dan yr oedran lle maent yn gymwys i gael credyd Pensiwn. Am ragor o wybodaeth, gweler dalen ffeithiau 413, **Benefits.**

Ni fydd cymorth y dreth gyngor yn rhan o'r system gredyd Cynhwysol. Fodd bynnag, efallai y bydd awdurdodau lleol yn gallu defnyddio gwybodaeth o hawliad credyd Cynhwysol person i'w helpu i benderfynu faint o gymorth y byddant yn ei ddarparu â threth gyngor person.

## Sefydliadau defnyddiol eraill

### Tribiwnlys Prisio ar gyfer Cymru

Swyddfeydd lleol amrywiol
www.valuation-tribunals-wales.org.uk

Mae Tribiwnlys Prisio Cymru yn sefydliad annibynnol sy'n ymdrin ag apeliadau ynghylch ardrethi annomestig a'r dreth gyngor. Mae gan y Tribiwnlys bedwar rhanbarth sy'n cael eu gwasanaethu gan swyddfeydd wedi'u lleoli'n strategol ledled Cymru. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cyllido Tribiwnlys Prisio Cymru.

### Tribiwnlys Prisio ar gyfer Lloegr

Yr Ail Lawr
120 Leman Street
Llundain E1 8EU

0300 123 2035
www.valuationtribunal.gov.uk

Tribiwnlys apeliadau annibynnol, a ariennir gan y llywodraeth i drin treth gyngor ac apeliadau ardrethi yn Lloegr. Mae'n darparu gwasanaeth am ddim a gwrandawiadau lleol, ac mae'r aelodau sy'n clywed apeliadau yn wirfoddolwyr hyfforddedig.

### Gwasanaethau Tir ac Eiddo (Asiantaeth Casglu Ardrethi gynt) yng Ngogledd Iwerddon

0300 200 7801
www.lpsni.gov.uk

Gall ateb ymholiadau ynghylch ardrethi yng Ngogledd Iwerddon, sut i dalu bil ardrethi neu sut i gael gwybod am werth cyfalaf eiddo yng Ngogledd Iwerddon.

**Dalen Ffeithiau 414WEL**

Adolygiad diwethaf: Mai 2017

Adolygiad nesaf: Mai 2020

Wedi'i adolygu gan Gary Vaux, Pennaeth yr Uned Cyngor Ariannol, Cyngor Swydd Hertford a Paul Rose, Cynghorydd Arian a Budd- daliadau, Sefydliad Joseph Rowntree

Adolygwyd y ddalen ffeithiau hon hefyd gan bobl a effeithir gan ddementia.

I roi adborth ar y ddalen ffeithiau hon, neu am restr o ffynonellau, cysylltwch â publications@alzheimers.org.uk

**Mae'r ddalen ffeithiau hon ar gael yn Saesneg, mewn print neu ar-lein. Ewch i alzheimers.org.uk/publications**

**This factsheet is available in English, in print or online. Visit alzheimers.org.uk/publications**

**Dementia Connect**
Yn eich cysylltu â'r cymorth iawn
Os ydych chi'n rhywun y mae dementia'n effeithio arno, sut bynnag mae arnoch ein hangen, rydyn ni yma i chi.

**Gofynnwch am gymorth heddiw**
**F:** 03300 947 400
**G:** alzheimers.org.uk/cymorthdementia
**E:** dementia.connect@alzheimers.org.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn yn cynnwys gwybodaeth a chyngor cyffredinol. Ni ddylid ei ddefnyddio yn lle cyngor personol gan weithiwr proffesiynol cymwysedig. Nid yw'r Alzheimer's Society yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb sy'n deillio o'i ddefnyddio. Rydym yn ceisio sicrhau bod y cynnwys yn gywir ac yn gyfredol, ond gall gwybodaeth newid dros amser. Gweler ein gwefan am y fersiwn diweddaraf ac ar gyfer ein telerau ac amodau llawn.

© Alzheimer's Society, 2017. Cedwir pob hawl. Heblaw am ddefnydd personol, ni ddylid dosbarthu, ailgynhyrchu, lawrlwytho, trosglwyddo na storio unrhyw ran o'r gwaith hwn mewn unrhyw ffurf heb gael caniatâd ysgrifenedig oddi wrth Gymdeithas Alzheimer.

Health & care information you can trust
The Information Standard Certified Member

Mae Cymdeithas Alzheimer yn gweithredu yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.
Rhif elusen gofrestredig 296645.

Alzheimer's Society Cymru
Unedig Yn Erbyn Dementia
United Against Dementia